COVID-19 Update: 15th May

In the last Cardiff Council COVID-19 update of the week: the Council Leader says a 'one city' approach will help us defeat COVID; Cardiff Council's £29m COVID-lockdown bill; response to COVID-19 in numbers; and addressing digital deprivation.

'One city' approach will help us defeat COVID says Cardiff Council leader

Cardiff's 'one-city' approach to tackling the COVID-19 outbreak has been praised by the leader of Cardiff Council who says the city 'must continue to work together' to ensure Wales' capital recovers from the effects of the pandemic.

Writing in advance of Full Council the city's leader, Cllr Huw Thomas, took the opportunity to thank key workers, public sector staff and residents for the important roles they have all played in helping to slow the spread of the virus.

Cllr Thomas said: "The latest ONS figures indicate 265 Covid-19 deaths in Cardiff up to May 1. We know that behind each of these numbers is a terrible personal tragedy, and our thoughts are with everyone who has been affected.

"The lockdown has had a major impact on all aspects of city life. We are living through a period of unprecedented change. Throughout it all I have been struck by the remarkable adaptability, strength and courage of our city, its residents and its public sector.

"The Cabinet and I are immensely proud of the Council's response during what continues to be a difficult and painful time, and we are so grateful for the work that council staff have undertaken to support our communities and the many families affected by COVID. It is clear to me that it is this 'one city' approach which is helping us tackle the outbreak, and it's a 'one-city' approach that will be needed to help us find our way back to normal life.

"Right now the city has been brought together and is working and fighting together to defeat this virus. This is what I mean by a 'one city approach' – courageous public servants working together across the NHS, Council, Police and Fire services; the extraordinary generosity of Cardiff citizens volunteering to help neighbours, or contributing financially to restock Food Banks; the dedication of key workers in retail, transport and logistics keeping us supplied with our everyday needs. It's this spirit of togetherness which is seeing us through, and which we must draw on still in the coming weeks and months.

At Full Council next Thursday, May 21, Cllr Thomas will tell elected members that his Cabinet will adopt a Restart, Recover and Renew approach to leading Cardiff out of the Covid-19 crisis.

The three-stage process will involve:

- **Restart**: Restarting & adapting a wide range of Council Services in the context of extended, stringent, social-distancing requirements
- **Recover**: A strategic response to support the city to emerge from the crisis

- **Renew**: Working closely with city partners, staff and citizens to set out the future we want for Cardiff post-crisis, and how together, we will make it happen.

Cllr Thomas said: “For some time we have been planning for lockdown measures being relaxed. We have done this work with key principles in mind. Services which are restarted will do so in a way that ensures the safety of staff and citizens. Those most vulnerable to the impact of the virus must be supported and protected. We will work with partners to restart the city economy and city life in a safe way, with a focus on halting the spread of the virus. Throughout we will be open and engaged, and ready to change our approach as we learn more.

“Work relating to economic recovery has commenced. Discussion has already begun with public service providers to develop a strategic response to support the city to emerge from the crisis. This engagement work will continue and, going forward, will involve all key partners - including the business community - in the days and weeks ahead.

“Meeting the challenge of Covid-19 has fundamentally relied on the dedication, passion and skills of key workers, council staff and of our city’s public servants and residents. It is clear, however, that the city remains in the grip of the pandemic and the Council continues to operate on a crisis footing. I want to emphasise, therefore, that though the number of new infections and fatalities in Cardiff has been falling for many weeks, the crisis is far from over. Our message to Cardiff for now remains: stay at home, protect the NHS and save lives.

“The Welsh Government will be reviewing their regulations in respect of the Covid-19 crisis on May 28. Whilst much remains uncertain, it is clear that the months ahead will not involve a simple reversion to life pre-Covid. How Council and public services will be delivered will need to adapt; how people live their lives, travel, work, and enjoy themselves in their free time will also change. Working together though, I know we will find a way to respond, adapt, and flourish.”

Cardiff Council’s £29m COVID-lockdown bill

Responding to the Covid-19 outbreak could cost Cardiff Council £29m in additional spend and lost revenue in the first three months of the financial year a report has revealed.

A statement from Cabinet to Cardiff Council has laid bare the expense involved in dealing with the effects of the virus.

The authority estimates it will spend more than £18m responding to the crisis and a further £11m could be lost in income by the end of June, 2020, as a direct result of COVID-19.

The £18m COVID-related spend includes, but is not limited to:

- The procurement of Personal Protective Equipment (PPE) to support the ongoing delivery of Council services and the wider care sector

- The provision of emergency accommodation to support homeless people during the pandemic
- The continued provision of food / financial assistance to those entitled to free school meals, given the closure of schools
- Support to domiciliary and residential care providers to reflect the additional costs of providing care during the pandemic
- Costs incurred to deliver widespread operational changes necessary to ensure the safe delivery of services, including waste disposal and the delivery of bereavement services
- The provision of supplier relief, paid in accordance with Government guidelines, in order to ensure service continuity both during and after the current Covid-19 outbreak.

Cabinet member for Finance, Modernisation and Performance, Cllr Chris Weaver, said: “Cardiff Council has reacted quickly to the crisis, changing the way we work, putting clear focus on maintaining essential services which deliver for our most vulnerable residents.

“Over the past two months our services have had to respond and adapt to the crisis as events continued to unfold. We have set up food operations ensuring people across the city who are shielding or in financial difficulty because of the virus will not go without food. We have changed the way our waste services operate to ensure kerbside collections are maintained while keeping our staff and residents safe.

“We have procured millions of items of PPE to ensure our services and the care sector can continue to operate. We have also worked closely with the care sector to ensure it can continue to operate in these difficult times, delivering a vitally important and valued service. Our school hubs have opened for the children of key workers and we have provided meals and cash payments for thousands of disadvantaged children throughout lockdown.

“Of course all of this comes at a cost and we have spent more than £18m ensuring the city continues to run and the most vulnerable among us do not suffer unnecessarily. Our focus has always been on ensuring the resilience of services critical to our COVID-19 response, doing everything we can to protect our most vulnerable citizens and our staff, and trying to halt the virus spreading.”

The £18m additional expenditure is being kept under constant review, and is being updated regularly as further pressures emerge. These include assessing the financial impact of a significant increase in the number of applications for Council Tax Support and current work to establish effective ‘Contact Track and Trace’ services locally as part of an all-Wales initiative.

Cllr Weaver added: “When we look at income we estimate that we will lose in excess of £11m as a direct result of Covid-19. Lost income during the lock-down includes the closure of the council’s cultural and sporting venues such as theatres, Cardiff Castle, Cardiff White Water and City Hall functions. It also reflects a reduction in activity in other income-generating areas including planning, parking, moving traffic offences, trade waste, registration and school catering.

“As with expenditure, this estimate will be monitored closely and updated as required. Over time the assessment of further income streams will need to be analysed with the most significant being the potential for any impact on the collection of Council Tax this year. Every penny we take in Council Tax now is essential. It helps us maintain regular cash flow, which allows us to manage some of the expenditure and income losses we have seen.”

The council hopes it will be able to claim back the additional £18m expenditure from Welsh Government through the Covid-19 Hardship Fund. This fund currently totals £110m and is for all local authorities in Wales to access. To date Cardiff Council has received £465,000 to cover Covid-related spend during the latter weeks of March.

The report says it is likely, however, that the current funding level announced so far will not be enough to cover all expenditure requirements at an all-Wales level, and any decision on whether income loss will be reimbursed by Welsh Government is yet to be taken.

Cllr Weaver added: “Welsh Government are working closely with local authorities, and we are submitting claims to them for Covid-related costs on a monthly basis. Our submission for March was paid in full. We know, however, that only part of that month was affected by lockdown, and the costs in future months are much higher. There is, of course, an element of risk regarding the ongoing recovery of costs. In particular, as current funding arrangements are confirmed to the end of June 2020 only. It’s clear to us that the challenges we face and the money we are spending to deal with those challenges will extend beyond that.

“We are working now on the implications of moving towards what is likely to be a “new normal” as lockdown restrictions are eased and the recovery phase begins. Some services will need to be changed to accommodate social distancing rules and restrictions. In all of this we have to ensure the safety of staff and residents. There may be significant financial implications with income streams in particular likely to take a considerable time to come back to normal levels.

“Positive talks are ongoing between Welsh Government and local authorities. The position is constantly evolving in response to Welsh and Central Government announcements and further clarity is required on other funding allocations that have been made, including the £95m that Wales receives from the £1.6bn additional funding for English Councils announced on 18 April 2020. The work monitoring our budget for this year and ensuring vital services are funded will continue, as well as preparing for next year’s budget and beyond. Although there is lots of uncertainty for all of us right now, we will continue to seek value for money, change the way our services work, and use our budgets to support vital services and the residents and businesses of our city during this crisis and in the years ahead”

COVID-19 Infographic 4: Cardiff Council response in numbers

Over the course of the COVID-19 crisis, we have been producing a series of infographics, capturing Cardiff Council’s response in numbers. Here is the latest of these infographics.

It captures everything from the amount of PPE delivered, to the thousands of hours provided in domiciliary care each week; the hundreds of food parcels delivered; the millions distributed in business support; the thousands of child care hours provided every week in our schools; the thousands of tonnes of waste collected.

The list goes on, but you can see all the numbers for yourself:

In Numbers: Cardiff Council Responding To The Covid-19 Crisis

20,000
HOURS OF CHILDCARE A WEEK IN OUR SCHOOL HUBS

4,400
FOOD PARCELS DELIVERED

10,000
CALLS TO THE COUNCIL ADVICE LINE (029 2087 1071)

1,300
PROACTIVE COMMUNICATIONS SENT

7,300
SOCIAL MEDIA REPLIES SENT

31K HOURS
OF DOMICILIARY CARE PROVIDED EACH WEEK

2.6M
ITEMS OF PPE DELIVERED

£58.5M
DISTRIBUTED IN BUSINESS GRANTS

2,400
MEALS ON WHEELS DELIVERIES A WEEK

319,000
VISITS TO THE COVID-19 WEBPAGE

17,500
TONNES OF WASTE COLLECTED

8,500
ON THE SHIELDING LIST CONTACTED

Figures from 14th March 2020 to 15th May 2020

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

Cardiff addresses digital deprivation

Cardiff Council is providing thousands of digital devices and broadband dongles via Welsh Governments Education Technology Project Fund to support children in Cardiff that have been unable to access online learning during school closures caused by COVID-19.

The Council has worked closely with schools across the city to deliver the scheme, which will see over 5000 Chromebook or i-Pad devices be repurposed from existing schools or purchased, and 2500 broadband dongles have been ordered.

Cabinet Member for Education, Employment and Skills, Cllr Sarah Merry said: "Cardiff Council has developed a range of ways to address the issue of digital deprivation so that children and young people can continue to access online learning during school closures.

"We have been gathering information to determine exactly how many pupils require digital support and a dedicated project team has been established to deliver the new scheme with the help of our schools.

"Importantly, as well as ensuring children and young people can continue to learn and engage with education during the health crisis, we also intend for this to be part of a long term solution to support distance learning following the lockdown."

Diweddariad COVID-19: 15 Mai

Yn niweddariad wythnosol COVID-19 diweddaraf Cyngor Caerdydd: mae Arweinydd y Cyngor yn dweud y bydd dull 'un dinas' yn ein helpu i orchfygu COVID; bil cloi mawr COVID £29M Cyngor Caerdydd; Ymateb Cyngor Caerdydd mewn rhifau; ac mae Caerdydd yn ymdrin ag amddifadedd digidol.

Bydd ymagwedd 'Un Ddinas' yn ein helpu i drechu COVID meddai arweinydd Cyngor Caerdydd

Cafodd ymagwedd 'un ddinas' Caerdydd i fynd i'r afael â COVID-19 ei chanmol gan arweinydd Cyngor Caerdydd sy'n dweud bod rhaid i'r ddinas 'barhau i weithio gyda'n gilydd' i sicrhau bod prifddinas Cymru'n gwella o effeithiau'r pandemig.

Yn ysgrifennu cyn y Cyngor Llawn cymerodd arweinydd y ddinas, Y Cynghorydd Huw Thomas y cyfle i ddiolch i weithwyr allweddol, staff y sector cyhoeddus a phreswylwyr am y rolau pwysig maent oll wedi'i chwarae wrth helpu i arafu lledaeniad y feirws.

Dywedodd y Cynghorydd Thomas: "Mae ffigurau diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos 265 o farwolaethau o Covid-19 hyd at 1 Mai. Rydym yn gwybod, y tu ôl i bob un o'r niferoedd mae trasiedi bersonol ofnadwy, ac rydym yn meddwl am bawb yr effeithiwyd arnynt.

“Cafodd y cyfnod cloi effaith fawr ar bob agwedd ar fywyd yn y ddinas. Rydym yn byw trwy gyfnod o newid digynsail. Drwyddi draw, rwyf wedi cael fy nharo gan hyblygrwydd, cryfder a dewrder nodedig ein dinas, ei thrigolion a’i sector cyhoeddus.

“Mae’r Cabinet a finnau’n hynod falch o ymateb y Cyngor yn ystod yr hyn sy’n parhau fel cyfnod anodd a phoenus, ac rydym mor ddiolchgar am y gwaith y mae staff y cyngor wedi’i wneud i gefnogi ein cymunedau a’r llu o deuluoedd y mae COVID yn effeithio arnynt. Mae’n glir i mi bod yr ymagwedd ‘un ddinas’ hon yn ein helpu i fynd i’r afael â’r achosion, a’r ymagwedd ‘un ddinas’ y bydd ei hangen arnom er mwyn dod o hyd i’n ffordd yn ôl i fywyd normal.

“Ar hyn o bryd daethpwyd â’r ddinas ynghyd ac mae’n gweithio ac yn ymladd gyda’i gilydd i drechu’r feirws hwn. Dyma beth rwy’n ei olygu gan ‘ymagwedd un ddinas’ - gweision cyhoeddus dewr yn gweithio gyda’i gilydd ar draws y GIG, y Cyngor, yr Heddlu a’r Gwasanaethau Tân; haelioni eithriadol dinasyddion Caerdydd sy’n gwirfoddoli i helpu cymdogion, neu’n cyfrannu’n ariannol i ailstocio Banciau Bwyd; ymroddiad gweithwyr allweddol yn y meysydd manwerthu, trafnidiaeth a logisteg i gyflenwi ein hanghenion pob dydd i ni. Yr ysbryd hwn o gyd-berthyn sy’n ein helpu i fynd trwodd, ac mae’n rhaid i ni dynnu ar hyn o hyd yn yr wythnosau a’r misoedd i ddod.

Yn y Cyngor Llawr ddydd Iau nesaf, 21 Mai, bydd y Cynghorydd Thomas yn dweud wrth yr aelodau etholedig y bydd ei Gabinet yn mabwysiadu ymagwedd Ailgychwyn, Adfer ac Adnewyddu i arwain Caerdydd allan o’r argyfwng Covid-19.

Bydd y broses tri cham yn cynnwys:

- **Ailddechrau** Ailddechrau ac addasu ystod eang o Wasanaethau’r Cyngor yng nghyd-destun gofynion ymbellhau cymdeithasol estynedig a llym.
- **Adfer:**Ymateb strategol i gefnogi’r ddinas i ddod allan o’r argyfwng.
- **:** Gweithio’n agos gyda phartneriaid y ddinas, staff a dinasyddion i nodi’r dyfodol rydym am ei weld at gyfer Caerdydd ar ôl yr argyfwng, a sut y byddwn yn gwneud iddo ddigwydd gyda’n gilydd.

Dywedodd y Cynghorydd Thomas: “Ers peth amser, buom yn cynlluniau ar gyfer llacio’r mesur clio. Rydym wedi gwneud y gwaith hwn gydag egwyddorion allweddol mewn cof. Bydd y gwasanaethau sy’n ailddechrau yn gwneud hynny mewn ffordd sy’n sicrhau diogelwch staff a dinasyddion. Mae’n rhaid i’r rhai sydd fwyaf agored i niwed gan effaith y feirws gael eu cefnogi a’u diogelu. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ailddechrau economi’r ddinas a bywyd y ddinas mewn ffordd diogel, gan ganolbwyntio ar atal y feirws rhag lledaenu. Drwyddi draw byddwn yn agored ac yn ymgysylltiedig, ac yn barod i newid ein hymagwedd wrth i ni ddysgu rhagor.

“Mae gwaith sy’n perthyn i adferiad economaidd wedi dechrau. Mae trafodaethau eisoes wedi dechrau gyda darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu ymateb strategol i gefnogi’r ddinas i ddod allan o’r argyfwng. Bydd y gwaith ymgysylltu’n parhau ac yn y dyfodol bydd yn cynnwys pob partner allweddol - gan gynnwys y gymuned busnes - yn y dyddiau a’r wythnosau i ddod.

“Mae codi i her Covid-19 wedi dibynnu’n sylfaenol ar ymroddiad, angerdd a sgiliau gweithwyr allweddol, staff y cyngor a gweision cyhoeddus a thrigolion ein dinas. Mae’n glir, fodd bynnag, bod y ddinas yng ngafael y pandemig o hyd ac mae’r Cyngor yn parhau i weithredu ar sail argyfwng. Rwyf eisiau pwysleisio, felly, er bod nifer yr heintiadau newydd a marwolaethau yng Nghaerdydd wedi bod yn gostyng ers wythnosau lawer, mae’r argyfwng o bell o fod drosodd. Mae ein neges i Gaerdydd ar hyn yw bryd yn parhau: aros gartref, amddiffyn y GIG ac achub bywydau.

“Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu eu rheoliadau parthed yr argyfwng Covid-19 ar 28 Mai. Er bod llawer yn parhau’n ansicr, mae’n glir na fydd y misoedd i ddod yn cynnwys dychweliad syml i fywyd cyn-Covid. Bydd angen i sut y caiff gwasanaethau’r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eu darparu addasu, bydd sut y mae pobl yn byw eu bywydau, yn teithio, yn gweithio ac yn mwynhau eu hunain yn eu hamser rhydd hefyd yn newid. Ond, yn gweithio gyda’n gilydd, rwy’n gwybod y byddwn yn dod o hyd i ffordd o ymateb, addasu a ffynnu.”

Cyfnod cloi COVID-19 yn costio £29m i Gyngor Caerdydd

Yn ôl adroddiad, gallai’r ymateb i’r argyfwng Covid-19 gostio £29m i Gyngor Caerdydd wrth iddo wario mwy o arian a cholli refeniw yn nhri mis cyntaf y flwyddyn ariannol.

Mae datganiad gan y Cabinet i Gyngor Caerdydd wedi datgelu'r gost sydd ynghlwm wrth ddelio ag effeithiau'r feirws.

Mae'r awdurdod yn amcangyfrif ei fod wedi gwario mwy na £18m yn ymateb i'r argyfwng, ac amcangyfrifir y gallai £11m arall o incwm gael ei golli erbyn diwedd mis Mehefin 2020 o ganlyniad uniongyrchol i COVID-19.

Mae'r gwariant o £18m sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Gaffael Cyfarpar Diogelu Personol i gefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a'r sector gofal ehangach
- Cynnig llety brys i gynorthwyo pobl ddigartref yn ystod y pandemig
- Parhau i roi bwyd / cymorth ariannol i'r rhai sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, o ystyried y ffaith bod ysgolion ar gau
- Cymorth i ddarparwyr gofal cartref a phreswyl i adlewyrchu'r costau ychwanegol o roi gofal yn ystod y pandemig
- Costau yr eir iddynt i gyflawni newidiadau gweithredol eang sy'n angenrheidiol i sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu'n ddiogel, gan gynnwys gwaredu gwastraff a darparu gwasanaethau profedigaeth
- Rhoi cymorth i gyflenwyr, sy’n cael eu talu yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau yn ystod ac ar ôl yr argyfwng COVID-19.

Dywedodd y Cyng Chris Weaver, sef yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad: "Mae Cyngor Caerdydd wedi ymateb yn gyflym i'r argyfwng, gan newid

y ffordd rydym yn gweithio, gan roi ffocws clir ar gynnal gwasanaethau hanfodol sy'n darparu ar gyfer ein trigolion mwyaf agored i niwed.

"Dros y ddeufis diwethaf mae ein gwasanaethau wedi gorfod ymateb ac addasu i'r argyfwng wrth i ddigwyddiadau barhau i ddatblygu. Rydym wedi sefydlu gweithrediadau bwyd i sicrhau na fydd pobl ar draws y ddinas sy'n gwarchod neu'n cael anhawster ariannol oherwydd y feirws yn mynd heb fwyd. Rydym wedi newid y ffordd mae ein gwasanaethau gwastraff yn gweithredu er mwyn sicrhau y cynhelir casgliadau ymyl y ffordd tra'n cadw ein staff a'n trigolion yn ddiogel.

"Rydym wedi caffael miliynau o eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol i sicrhau y gall ein gwasanaethau a'r sector gofal barhau i weithredu. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r sector gofal i sicrhau y gall barhau i weithredu yn y cyfnod anodd hwn, gan ddarparu gwasanaeth hynod bwysig a gwerthfawr. Mae ein hysgolion ardal wedi agor i blant gweithwyr allweddol ac rydym wedi cynnig prydau a thaliadau arian parod i filoedd o blant difreintiedig trwy gydol y cyfnod cloi.

"Wrth gwrs mae hyn i gyd yn costio ac rydym wedi gwario mwy na £18 miliwn er mwyn sicrhau bod y ddinas yn parhau i redeg ac nad yw'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein plith yn dioddef yn ddiangen. Rydym bob amser wedi canolbwyntio ar sicrhau gwydnwch gwasanaethau sy'n hanfodol i'n hymateb i COVID-19, gan wneud popeth a allwn i amddiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed a'n staff, a cheisio atal y feirws rhag lledaenu."

Mae'r gwariant ychwanegol o £18m yn cael ei adolygu'n gyson, ac mae'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd wrth i ragor o bwysau ddod i'r amlwg. Mae hyn yn cynnwys asesu effaith ariannol cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am gymorth gyda'r Dreth Gyngor a gwaith i sefydlu gwasanaethau 'Olrhain Cyswllt' effeithiol yn lleol fel rhan o fenter Cymru gyfan.

Ychwanegodd y Cynghorydd Weaver: "Pan edrychwn ar incwm, rydym yn amcangyfrif y byddwn yn colli dros £11m o ganlyniad uniongyrchol i Covid-19. Mae'r incwm a gollir yn ystod y cyfnod cloi yn cynnwys cau lleoliadau diwylliannol a chwaraeon y Cyngor fel theatrau, Castell Caerdydd, Dŵr Gwyn Caerdydd a Neuadd y Ddinas. Mae hefyd yn adlewyrchu llai o weithgarwch mewn meysydd eraill sy'n creu incwm, gan gynnwys cynllunio, parcio, troseddau traffig sy'n symud, gwastraff masnachol, cofrestru ac arlwyo mewn ysgolion.

"Yn debyg i wariant, bydd yr amcangyfrif hwn yn cael ei fonitro'n ofalus a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Dros amser bydd angen dadansoddi'r asesiad o ffrydiau incwm pellach a'r un mwyaf arwyddocaol fydd y posibilrwydd o unrhyw effaith ar gasglu'r Dreth Gyngor eleni. Mae pob ceiniog rydym yn ei chymryd ar gyfer y Dreth Gyngor yn awr yn hanfodol. Mae'n ein helpu i gynnal llif arian rheolaidd, sy'n ein galluogi i reoli rhywfaint o'r gwariant a'r colledion incwm rydym wedi'u gweld."

Mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd yn gallu hawlio'n ôl y gwariant ychwanegol o £18m gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Galedi Covid-19. Mae'r gronfa hon werth £110m ar hyn o bryd ac mae ar gael i bob awdurdod lleol yng Nghymru ei defnyddio. Hyd yma mae Cyngor Caerdydd wedi derbyn £465,000 i dalu am wariant sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn ystod wythnosau olaf mis Mawrth.

Mae'r adroddiad yn dweud, fodd bynnag, ei bod yn debygol na fydd y lefel ariannu bresennol a gyhoeddwyd yn ddigon ar gyfer yr holl ofynion gwariant ar lefel Cymru gyfan, ac nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch a fydd incwm a gollwyd yn cael ei ad-dalu gan Lywodraeth Cymru.

Ychwanegodd y Cynghorydd Weaver: "Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, ac rydym yn cyflwyno ceisiadau iddi am gostau sy'n gysylltiedig â Covid-19 bob mis. Talwyd ein cyflwyniad ar gyfer mis Mawrth yn llawn. Fodd bynnag, gwyddom mai dim ond rhan o'r mis hwnnw yr effeithiwyd arno gan y cyfnod cloi, ac mae'r costau yn y misoedd ar ôl hynny'n uwch o lawer. Mae yna, wrth gwrs, elfen o risg o ran adennill costau parhaus. Yn arbennig gan fod y trefniadau ariannu presennol dim ond wedi'u cadarnhau tan ddiwedd Mehefin 2020. Mae'n amlwg i ni y bydd yr heriau a wynebwn a'r arian rydym yn ei wario i ddelio â'r heriau hynny yn ymestyn y tu hwnt i hyn.

"Rydym wrthi'n gweithio ar y goblygiadau o symud tuag at yr hyn sy'n debygol o fod yn "norm newydd" wrth i gyfyngiadau'r cyfnod cloi gael eu lleddfu a'r cyfnod adfer ddechrau. Bydd angen newid rhai gwasanaethau er mwyn cadw at reolau a chyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol. Mae'n rhaid i ni sicrhau diogelwch staff a thrigolion yn hyn oll. Efallai y bydd goblygiadau ariannol sylweddol, gyda ffrydiau incwm yn arbennig yn debygol o gymryd cryn amser i ddychwelyd i lefelau arferol.

"Mae trafodaethau cadarnhaol ar y gweill rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae'r sefyllfa'n esblygu'n barhaus mewn ymateb i gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru a'r llywodraeth ganolog ac mae angen mwy o eglurder ar ddyraniadau cyllid eraill sydd wedi'u gwneud, gan gynnwys y £95m y mae Cymru'n ei dderbyn o'r £1.6 biliwn ychwanegol ar gyfer cynghorau Lloegr, a gyhoeddwyd ar 18 Ebrill 2020. Bydd y gwaith o fonitro ein cyllideb ar gyfer eleni a sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu hariannu yn parhau, yn ogystal â'r gwaith o baratoi ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf a thu hwnt. Er bod llawer o ansicrwydd i bob un ohonom ar hyn o bryd, byddwn yn parhau i geisio gwerth am arian, newid y ffordd mae ein gwasanaethau'n gweithio, a defnyddio ein cyllidebau i gefnogi gwasanaethau hanfodol a thrigolion a busnesau ein dinas yn ystod yr argyfwng hwn ac yn y blynyddoedd i ddod."

Ffeithlun COVID-19 4: Ymateb Cyngor Caerdydd mewn rhifau

Dros gyfnod argyfwng COVID-19, rydym wedi bod yn cynhyrchu cyfres o ffeithluniau, gan nodi ymateb Cyngor Caerdydd mewn rhifau. Dyma'r diweddaraf o'r ffeithluniau hyn.

Mae'n casglu popeth o niferoedd Cyfarpar Diogelu Personol a gyflenwir, i'r miloedd o oriau a ddarperir mewn gofal cartref bob wythnos; y cannoedd o barseli bwyd a ddarparwyd; y miliynau a ddosbarthwyd mewn cymorth busnes; y miloedd o oriau gofal plant a ddarperir bob wythnos yn ein hysgolion; y miloedd o dunelli o wastraff a gasglwyd.

Mae'r rhestr yn mynd ymlaen, ond gallwch weld yr holl rifau ar eich cyfer chi eich hun:

Y niferoedd: Ymateb Cyngor Caerdydd i argyfwng COVID-19

20,000
AWR O OFAL PLANT BOB WYTHNOS YN EIN CANOLFANNAU YSGOL

4,400
O BARSELI BWYD WEDI EU DOSBARTHU

10,000
O ALWADAU I LINELL GYNGHORI'R CYNGOR (029 2087 1071)

1,300
GYFATHREBIADAU RHAGWEITHIOL WEDI'U HANFON

7,300
O ATEBION WEDI'U HANFON AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

31K HOURS
O ORIAU GOFAL CARTREF WEDI'U DARPARU BOB WYTHNOS

2.6M
OFFER DIOGELWCH PERSONOL A DDANFONWYD

£58.5M
WEDI'I DDOSBARTHU MEWN GRANTIAU BUSNES

2,400
O DDANFONIADAU PRYD AR GLUD YR WYTHOS

319,000
O YMWELIADAU Å THUDALEN GWE COVID-19

17,500
TUNNELL O WASTRAFF WEDI'I GASGLU

8,500
CYSYLLTWYD A'R NIFER HYN O BOBL AR Y RHESTR AMDDIFFYN

Casglwyd y ffigurau ar 14 Mawrth - 15 Mai 2020

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

Caerdydd yn mynd i'r afael ag amddifadedd digidol

Mae Cyngor Caerdydd yn darparu miloedd o ddyfeisiau digidol a donglau band eang drwy Gronfa Prosiect Technoleg Addysg Llywodraeth Cymru i gefnogi plant yng Nghaerdydd sydd wedi methu â dysgu ar-lein tra bod ysgolion ar gau oherwydd COVID-19.

Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gydag ysgolion ar draws y ddinas i gyflawni'r cynllun, a fydd yn gweld dros 5000 o ddyfeisiau Chromebook neu i-Pad yn cael eu benthyg gan ysgolion sy'n bodoli eisoes neu eu prynu, a 2500 o ddonglau band eang yn cael eu harchebu.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau, y Cynghorydd Sarah Merry: “Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu amrywiaeth o ffyrdd o fynd i'r afael ag amddifadedd digidol, er mwyn i blant a phobl ifanc barhau i fanteisio ar ddysgu ar-lein, tra bod ysgolion ar gau.

"Rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth i bennu faint yn union o ddisgyblion sydd angen cymorth digidol ac mae tîm prosiect penodol wedi'i sefydlu i gyflwyno'r cynllun newydd gyda chymorth ein hysgolion.

"Yn bwysig, yn ogystal â sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu parhau i ddysgu ac ymgysylltu ag addysg yn ystod yr argyfwng iechyd, rydym hefyd yn bwriadu i hyn fod yn rhan o ateb hirdymor i gefnogi dysgu o bell ar ôl y cloi mawr."